# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Sbwriel Morol

Cynllun Gwers



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

| Nodau |
| --- |
| • Deall diffiniad sbwriel morol, lle i ddod o hyd iddo a'r effaith y gall ei chael ar yr amgylchedd morol.<br>• Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â sbwriel morol ac annog disgyblion i gymryd camau adeiladol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. |
| **Amcanion** |
| • Disgrifio'r mathau cyffredin o sbwriel sydd i'w ganfod yn y cefnfor.<br>• Esbonio bod gan sbwriel effaith gymdeithasol ac economaidd ar gymuned.<br>• Cymhwyso gwybodaeth o effaith sbwriel morol i fywyd bob dydd drwy weithredoedd #ArFrigYDon a rhaglen Eco-Sgolion. |

| Pwnc Eco-Sgolion | Nodau Byd Eang |
| --- | --- |
| • Sbwriel<br>• Lleihau Gwastraff<br>• Dŵr | • 12 Defnydd  a chynhyrchu Cyfrifol<br>• 13 Gweithredu ar  Newid Hinsawdd<br>• 14 Bywyd o Dan y Dŵr |

| Cysylltiadau i'r Cwricwlwm yng Nghymru | |
| --- | --- |
| **Diben** | |
| Dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n:<br>• Gall esbonio'r syniadau a'r cysyniadau y maent yn dysgu amdanynt.<br>• Defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu.<br>Dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n:<br>• Cymryd rhan mewn materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br>• Deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu.<br>• Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.<br>Unigolion iach a hyderus sydd:<br>• Â gwerthoedd diogel ac yn sefydlu credoau moesegol | |
| **Beth sy'n Bwysig** | **Cam Cynnydd: Tri/Pedwar** |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>• Ymgysylltu â thystiolaeth wyddonol a thechnegol i lywio fy marn fy hun.<br>• Esbonio sut mae effaith ein gweithredoedd yn cyfrannu at newidiadau yn yr amgylchedd a bioamrywiaeth.<br>• Adnabod bod newidiadau i ddeunyddiau yn effeithio ar eu nodweddion a'u defnydd.<br>• Adnabod bod ein planed yn darparu deunyddiau naturiol a gall esbonio pam y gallent fod wedi'u prosesu i'w gwneud yn ddefnyddiol.<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer amrediad eang o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa. | |
| **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** | **Cam Cynnydd: Pedwar** |
| Creu cynnwys digidol<br>• Dewis a defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, offer a thechnegau priodol i greu, newid a chyfuno cydrannau amlgyfrwng ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion megis testun a delweddau. | |

| **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** | **Cam Cynnydd: Pedwar** |
| --- | --- |
| Ysgrifennu<br>• Gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a ffigurol a chystrawen er mwyn mynegi fy hun gyda rhuglder, cywirdeb ac eglurder.<br>• Addasu fy arddull ysgrifennu, gan ddewis a defnyddio'r strwythurau gorau ar gyfer gwahanol gyd-destunau a dibenion, e.e. i ddisgrifio, esbonio, perswadio, trafod yn llwyddiannus.<br>• Ysgrifennu am fy meddyliau, fy nheimladau a'm barn, gan ddefnyddio ystod eang o dechnegau, e.e. iaith emosiynol, gormodiaith, dewis o ragenwau (chi, ni), er mwyn dangos effaith. | |
| **Cynefin** | |
| Ymchwilio sbwriel yn yr ysgol a'r gymuned leol.<br>Eitem Newyddion yn ymwneud â thraethau Cymru. | |

| **Gweithgaredd 1** | Adnoddau ac Offer |
| --- | --- |
| **Beth yw sbwriel morol?**<br>Cwestiwn – Beth yw Sbwriel Morol?<br>Ateb – Gwastraff a grëir gan fodau dynol sy'n cael ei ollwng i'r amgylchedd morol.<br><br>Dangos y lluniau o sbwriel morol gan roi amser i ddisgyblion arsylwi ar yr hyn y maent yn ei weld.<br>Gofynnwch y cwestiynau hyn -<br>Pa eitemau ydych chi'n eu gweld?<br>O ba ddeunydd y mae'r eitemau wedi'u gwneud?<br>Sut ydych chi'n teimlo am hyn?<br>Pam mae'r sbwriel yno?<br><br>Gweithgaredd "Llaw i Fyny" dosbarth<br><br>Astudiwch y mathau o sbwriel morol ar y sleid.<br>Ym mha ardaloedd yn eich ysgol neu'ch cymuned ydych chi'n debygol o ddod o hyd i rai o'r eitemau o sbwriel hyn? Edrychwch ar bob math o eitem a chreu rhestr o resymau pam y maent i'w canfod yn y llefydd y nodwyd gennych.<br>Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ddatrysiad i bob rheswm.<br><br>Trafodwch y rhesymau hyn mewn grwpiau a meddwl am rai syniadau am sut i leihau'r sbwriel o gwmpas eich ysgol neu'ch cymuned.<br>Bydd pob grŵp yn bwydo syniadau yn ôl i'r dosbarth cyfan. Ydy'r dosbarth yn gallu datblygu rhai o'r syniadau hyn?<br>Neu gallwch sicrhau bod awgrymiadau yn cael eu hanfon ymlaen at yr Eco-Bwyllgor neu Gyngor Ysgol. Gofynnwch am adborth y pwyllgorau hyn. | Cyflwyniad<br><br><br>Lluniau o sbwriel yn y cyflwyniad<br>Beiro a phapur<br><br><br><br><br><br><br><br>Cyflwyniad<br><br><br>Cyflwyniad |

| Gweithgaredd 2 | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Sut oedd y sbwriel wedi cyrraedd yn y lle cyntaf?**<br><br>Yn ystod Wythnos Glanhau Traethau Prydain 2020, daeth gwirfoddolwyr o hyd i **425 o eitemau o sbwriel ar gyfartaledd fesul 100m ar draethau'r DU**.<br>Gwnewch restr dosbarth o'r prif eitemau yr ydych yn credu y bydd yn cael eu canfod ar ddigwyddiad casglu sbwriel ar y traeth. Edrychwch ar Adroddiad Wythnos Glanhau Traethau Prydain 2020, trafodwch a phenderfynu ym mha adran y dylid rhoi'r eitemau ar eich rhestr.<br>Mae adroddiad 2020 sy'n rhestru math a nifer y sbwriel ar draethau'r DU yn dangos yn drist iawn fod cynnydd yn sbwriel Cyfarpar Diogelu Personol.<br><br>I ehangu'r gweithgaredd ymhellach, beth am ddefnyddio'r Marine Conservation Society Secondary Education pack<br><br>Gall y digwyddiadau canlynol yng Nghymru ddangos digwyddiadau lle mae sbwriel wedi'i daflu ar dir neu wedi'i golli ar y môr:<br>• **Barry Island: Litterbugs' complete disregard for beach.**<br>Roedd traethau lleol wedi'u gorchuddio â photeli plastig, cewynnau a weips ar ôl i bobl ymweld â nhw – cafodd llawer o'r sbwriel ei gario allan i'r môr pan ddaeth y llanw i mewn.<br><br>Ystyriwch nifer yr effeithiau a gafodd eu hachosi gan ymddygiad pobl ar yr ardal leol.<br>Ewch ati i greu map meddwl gan gynnwys penawdau megis iechyd y cyhoedd, bywyd gwyllt lleol a chyhoeddusrwydd yn ogystal â'r gwaith ychwanegol a chost i'r awdurdod lleol. | Cyflwyniad<br><br>Cyflwyniad / Erthygl newyddion |

| Gweithgaredd 3 | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Am faint fydd hi'n para?**<br><br>Mae'r amser y mae'n cymryd i eitem ddadelfennu yn cael ei benderfynu gan y math o ddeunydd y mae'n cael ei wneud ohono . Rhannwch yr eitemau sydd wedi'u rhestru yn y Cyfoeth Naturiol Cymru Llinell Amser Gwastraff a gofyn i'r disgyblion amcangyfrif trefn y gyfradd ddadelfennu.<br>Rhannwch y llinell amser cywir. Pa mor agos oedd eu hamcangyfrifon?<br><br>Gan ddefnyddio'r ffeithlun fel enghraifft, gofynnwch i'r disgyblion greu llinell amser eu hunain, gan gyfeirio at y sbwriel mwyaf cyffredin sydd i'w gweld o fewn ac o gwmpas yr ysgol. | Cyflwyniad<br><br>TGCh |

| | |
|---|---|
| Ewch ati i greu negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw i ba mor hir y gall sbwriel sy'n cael ei ganfod yn yr ysgol bara os nad yw'n cael ei waredu'n gywir.<br><br>Ymgyrch sy'n tynnu sylw at ba mor hir y gall plastig aros yn y cefnfor yw *Lego Lost at Sea*. Gwyliwch y fideo sy'n dangos lego (a llawer o ddarnau plastig eraill) yn cael ei olchi lan ar draeth Perranporth yng Nghernyw o herwydd ollyngiad o long yn 1997 pan aeth dros 5 miliwn darn o lego i mewn i'r môr.<br>https://youtu.be/3FxfXVuHRjM | |

| **Gweithgareddau Eraill** | **Adnoddau ac Offer** |
|---|---|
| • Cynlluniwch gyflwyniad i'w ddefnyddio mewn gwasanaeth ysgol, gan dynnu sylw at faterion yn ymwneud â sbwriel morol. Defnyddiwch hwn fel cyfle i gyflwyno ac ysbrydoli disgyblion yr ysgol i gymryd camau gweithredu..<br>• Anogwch y dosbarth i ddod yn beirianwyr y dyfodol. Dyfeisiwch a chynhyrchu dyluniad am beiriant sy'n gallu gwaredu'r sbwriel o'r cefnfor. Edrychwch ar waith Boyan Slat ar https://theoceancleanup.com/about/<br><br>• Ymchwiliwch i'r sefydliadau sy'n cynhyrchu'r mwyaf o eitemau sbwriel. Dadansoddwch **Adroddiad Awdit Brandiau *Surfers Against Sewage* 2021.**<br>**<https://www.sas.org.uk/wp-content/uploads/SAS-BrandAudit2021-Digital.pdf>** | |

## #ArFrigYDon

Cymhwyso'r wybodaeth a gafodd eu casglu yn y wers fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n agwedd bwysig i sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod ganddynt y pŵer i weithredu a gwneud newidiadau yn eu bywydau eu hunain ac o fewn yr ysgol. Mae'n gam cadarnhaol hefyd sy'n helpu i  gydbwyso rhai o'r effeithiau negyddol a gafodd eu harchwilio yn y wers.

Penderfynu ar weithred/gweithredoedd i'w cymryd naill ai fel unigolion neu ddosbarth. Dyma rai awgrymiadau neu gallai'r dosbarth benderfynu ar rai eu hunain.

Ysgol:

- Pa effaith sydd gan eich ysgol ar broblemau sbwriel lleol? Ymchwiliwch, codwch ymwybyddiaeth a dewch o hyd i ddatrysiadau! Beth am gynnwys meysydd pynciau gwahanol, e.e cerddoriaeth, drama neu gelf?

| |
|---|
| • Beth am wahodd sefydliadau amgylcheddol a'r awdurdod lleol i'ch hysgol i rannu gwybodaeth a thynnu sylw at broblemau a chynnig gweithredoedd cadarnhaol?<br>• <https://www.sas.org.uk/take-action/> Atal plastig un-tro a dod yn Ysgol Ddi-Blastig! |
| Unigolion:<br>• Prynwch lai! Ystyriwch eich arferion prynu ac ystyried cyfnewid eich eitemau un-tro am rywbeth mwy cynaliadwy.<br>• Ymchwiliwch i ymgyrch Generation Ocean a'r adran youth and inclusion. Ymunwch i gael gwybodaeth yn rheolaidd.<br>• Ymwelwch â gwefan Kids Against Plastic, gwrandewch ar y Plastic Clever TED talk a phenderfynwch sut y gallwch ddod yn fwy clyfar gyda phlastig yn eich bywydau bob dydd a chael eich ysbrydoli i wneud mwy! |

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru’n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13